

AR DDYDD MAWRTH, 15fed EBRILL, 2008 cynhaliwyd Cyfarfod o Gyngor Cymuned Trefeurig yn Neuadd y Penrhyn am 7.00 pm

PRESENNOL: Y Cyng. Mrs Kari Walker (Cadeirydd); Mrs E Davies; Mrs G Price; Mri M Evans; Merfyn Hughes; Daniel Huws, Daniel Jones; DM Hughes; Tegwyn Lewis; Richard Owen a'r clerc.

2346 Ymddiheuriadau am absenoldeb: Nid oedd y Cyng. Sir D. Suter yn medru bod yn bresennol.

2347 Materion Personol: Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn drueni nad oedd dau aelod o'r Cyngor oedd wedi gwasanaethu am gyfnod maith yn sefyll yn yr etholiad ar ddechrau Mai: Y Cyng. Daniel Huws sydd wedi rhoi 41 mlynedd o wasanaeth a'r Cyng. Merfyn Hughes, 17 mlynedd. Pan ofynnwyd iddo ddwyn i gof penderfyniad gan y Cyngor a fu o fudd arbennig i'r Gymuned, nododd y Cyng. Huws ddau: Perswadio'r cynllunwyr i newid eu meddyliau ynghylch dynodi Cae Baker, Penrhyncoch yn safle datblygu i fod yn ardal werdd, a ddaeth yn y man yn gae pêl-droed ac ardal chwarae, a llwyddiant y Cyngor a'r Rheini yn gwydroi penderfyniad yr Adran Addysg yn 1969 i gau Ysgol Trefeurig o fewn dwy flynedd.

2348 Datgan Diddordeb Personol: Dim

2349 Cadarnhau Cofnodion: PENDERFYNWYD cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 18fed Mawrth 2008. Trafodwyd y materion canlynol oedd yn codi i'r Cofnodion:

Cofnod 2322 - Dafydd ap Gwilym: Cadarnhaodd y Clerc ei bod wedi cysylltu gyda'r Academi Gymraeg ynghylch y Garreg Goffa. Ni chafwyd ymateb hyd yn hyn.

Cofnod 2328 – Cynllun Datblygu Lleol: Adroddodd y Cyng. Richard Owen a Kari Walker ar y Cyfarfod yn Aberystwyth ar 19eg Mawrth 2008 oedd yn esbonio'r broses o gyflwyno safleoedd posib i'w cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol; un ai fel safleoedd datblygu neu at ddefnydd arall. Wrth drafod dyfodol y Cynllun Datblygu atgoffodd y Cyng. D Huws y Cyngor fod sefydlu parc gwyddoniaeth bach lleol yn un o amcanion y Cyngor sydd heb ei wireddu. PENDERFYNWYD nodi hynny.

Cofnod 2350 - Cod Ymddygiad: Yn dilyn llythyr y Cynulliad, cadarnhawyd erbyn hyn y bydd y Gorchymyn mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad newydd yn dod i rym ar 18fed Ebrill 2008. PENDERFYNODD Cyngor Cymuned Trefeurig fabwysiadu'r Cod Newydd fel mae wedi'i osod yn y Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol)(Cymru) 2008 sy'n dod i rym ar 5ed Mai 2008.

2350 Adroddiadau Cyfarfodydd a fynychwyd gan yr Aelodau yn cynrychioli'r Cyngor Cymuned:

Swyddfeydd Post - Rhaglen Newid Rhwydwaith: Cynhaliwyd y Cyfarfod hwn, a fynychwyd gan y Cyng. R Owen, ym Mhenmorfa, Aberaeron ar 26ain

Mawrth 2008. Nodwyd amcanion y rhaglen ad-drefnu'n glir, ac felly hefyd y ffaith bod penderfyniad di-droi'n-ôl wedi'i wneud ynghylch y nifer o swyddfeydd sydd i gau. Bydd ymgyrch lwyddiannus i gadw un swyddfa bost ar agor yn arwain at gau un arall.

PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad . Petai Swyddfa Bost Penrhyn-coch dan fygythiad o gau gelwid cyfarfod ar unwaith.

Derbyniwyd ac ystyriwyd yr ohebiaeth/dogfennau canlynol:

- 2351 Dogfen LICC - Cyflawni Strategaethau Cymunedol:** PENDERFYNWYD ei phasio i'r Cyng. K Walker ei darllen
- 2352 Drafft LICC – Fframwaith y Gwasanaeth Tân ac Achub – dogfen ymgynghorol:** PENDERFYNWYD ei phasio i'r Cyng. DM Hughes ei darllen
- 2353 CS Ceredigion – Strategaeth Dai Leol 2007-2012 – dogfen ddrafft ymgynghorol:** PENDERFYNWYD ei phasio i'r Cyng. R Owen ei darllen
- 2354 Un Llais i Gymru – parthed Garddwest ym Mhalas Buckingham 15fed Gorffennaf 2008:** Gwahoddiad i Gynghorau sy'n aelodau i gyflwyno enw'r Cadeirydd a gwestai i fynd mewn i'r het i gael cyfle i fynychu. PENDERFYNWYD enwebu'r Cyng. K Walker a gwestai
- 2355 CS Ceredigion – Prosiect Ysbryd y Mwynwyr – holiadur gwerthuso:** PENDERFYNWYD ei gwblhau a'i ddychwelyd.
- 2356 Canolfan Roserchan, Penrhyn-coch:** Cais i'r Cyngor gefnogi bwriad y Ganolfan i osod paneli ffotofoltaidd ar y to. PENDERFYNWYD anfon llythyr o gefnogaeth.
- 2357 Calor – Cystadleuaeth Pentref y Flwyddyn –** Gwahoddiad i gymryd rhan, dyddiad cau 30ain Mai, 2008. PENDERFYNWYD peidio ag anfon cais ar gymaint o fyr rybudd.
- 2358 Gwefan Trefeurig:** Derbyniwyd hysbysiad y bydd gwefan Trefeurig yn hygyrch yn swyddogol o'r 15fed Mai 2008. Gwahoddiad i'r Cyngor anfon Cofnodion y cyfarfodydd misol i'w cynnwys ar y wefan.

Materion Ariannol

- 2359 Cyfrifon Banc HSBC – balans ar 31 Mawrth 2008:**

Cyfrif Cymunedol - £1,226.82. Cyfrif Rheoli Busnes - £4,793.34

- 2360 Cytunwyd i dalu'r Anfoneb ganlynol:** L Griffiths - cyfieithu Mawrth 2008 -

£58.41 – sicc 854

- 2362 Earth Anchors Ltd** – meinciau cyhoeddus: derbyniwyd hysbysiad y bydd y meinciau wedi cyrraedd cyn 30ain Ebrill.
- 2363 2007/08 Archwiliad o'r Cyfrifon:** Y cyfrifon wedi'u cwblhau. Yn aros am y Ffurflen Flynyddol gan yr Archwilwyr. PENDERFYNWYD gadael y drafodaeth ar y Cyfrifon tan y Cyfarfod nesaf.
- 2364 Adolygu'r Yswiriant:** PENDERFYNWYD cwblhau'r adolygiad yng nghyfarfod mis Mai.

Nodwyd y penderfyniad cynllunio canlynol:

- 2365 A071401 Llain ym Mhenbontrhydybeddau** – Amrywiad i'r Amodau: Cymeradwywyd.

Ystyriwyd y ceisiadau cynllunio canlynol:

- 2366 A080262 Tir ger Awelon, Cefnllwyd:** Annedd a mynediad – dim gwrthwynebiad
- 2367 A080277 Banc Llety Spence, Cwmerfyn** – siec cadw offer amaethyddol – dim gwrthwynebiad.
- 2368 Cynhelir Cyfarfod nesaf y Cyngor, y CCB a Chyfarfod cyntaf y cyngor newydd yn Neuadd y Penrhyn ar Ddydd Mawrth, 13eg Mai 2008 am 7.00 pm. Bydd Cyfarfod Agored am 7.00 pm ac yna CCB y Cyngor am 7.30 pm.**

Bwriadwyd cynnal y CCB eleni yn Ysgol Trefeurig ond nid oedd yr Ystafell Gyfarfod ar gael.

- 2369 Cytunwyd i gynnwys yr eitemau canlynol ar yr Agenda nesaf:**

Mannau pasio – ffordd Salem. Goleuadau llwybr troed diffygiol.

Daeth y Cyfarfod i ben am 8.30 pm.